*Canllaw i Rieni/Gofalwyr i Bontio ac i Gynllunio ar gyfer Pontio ar gyfer Pobl Ifanc sydd â'r canlynol :*

* **Datganiad Addysgol / Nodyn yn lle Datganiad**
* **Plant sydd wedi'u cofrestru'n anabl**
* **Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig wedi'i Asesu**

**CYNORTHWYO'CH PLENTYN WRTH IDDO DYFU'N OEDOLYN**





**A Parent(s)/Carer(s) Guide to Transition and Transition Planning for Young People who have an :**

* **Educational Statement/Note in Lieu**
* **Registered Disability**
* **Assessed Autistic Spectrum Disorder**

**ASSISTING YOUR CHILD INTO ADULTHOOD**

Rhif Tudalen


Pontio a Chynllunio ar gyfer Pontio ................................ 3

Beth yw Pontio? ........................................................ 3

Beth yw Cynllunio ar gyfer Pontio? ................................ 3

Cyfarfod i Adolygu'r Cynllun Pontio .............................. 4

Cyfrannu at y Cynllun Pontio ........................................ 5

Y Broses o Gynllunio ar gyfer Pontio ............................. 6

Cysylltiadau a Gwybodaeth Ddefnyddiol ....................... 7






Page


Transition and Transition Planning ................................3

What is Transition? .....................................................3

What is Transition Planning?.........................................3

The Transition Plan Review Meeting ...............................4

Contributing to the Transition Plan.................................5

The Transition Planning Process ...................................6

Contacts and Useful Information ...................................7

## Transition and Transition Planning

**The purpose of this guide is to explain and assist parents/carers of children who either have a Statement of Special Educational Needs, Note in Lieu, Registered Disability or an assessed Autistic Spectrum Disorder through Transition and Transition Planning Process.**

## What is Transition?

As your child grows into a young adult, this can be an exciting but challenging time where, along with them, you can start planning their future.

As a parent/carer you can also find this a difficult time, worrying about what opportunities and services your child will receive as an adult and whether these will meet their needs.

For these reasons, you as the parent/carer play a vital role in helping to plan for these changes. This process is known as Transition.

Transition Planning starts for your child in Year 9 (14 years). Individuals working with your child will meet to share information, this information will be recorded and a Transition Plan will be constructed. Transition Plans when they are first drawn up are not simply about what is available when leaving school, but can include plans for ongoing school provision. The Transition Plans should also include :-



* The young persons views and wishes
* The parent(s)/carer(s) views and wishes
* Current/future education provision
* Training and employment opportunities
* Current health needs
* Current social care needs
* Post school meaningful daytime opportunities
* Day to day living i.e. transport, finance, housing etc.



## Pontio a Chynllunio ar gyfer Pontio

**Diben y canllaw hwn yw egluro wrth rieni/gofalwyr sydd â phlant sydd un ai â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig, Nodyn yn lle Datganiad, Anabledd Cofrestredig neu Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig wedi'i asesu beth yw'r cyfnod Pontio a'u cynorthwyo gyda'r Broses o Gynllunio ar gyfer y Cyfnod Pontio.**

## Beth yw'r Cyfnod Pontio?

Mae'r cyfod y mae eich plentyn yn datblygu yn oedolyn ifanc yn gyfnod cyffrous ond gall fod yn gyfnod heriol hefyd a gallwch chi â'ch plentyn ddechrau cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r cyfnod hwn yn gallu bod yn gyfnod anodd hefyd i chi fel rhiant/gofalwr; byddwch yn pryderu ynghylch pa gyfleoedd a gwasanaethau fydd ar gael i'ch plentyn fel oedolyn ac a fydd y gwasanaethau hyn yn diwallu anghenion eich plentyn.

Am y rhesymau hyn, mae'r rhan rydych chi fel rhiant/gofalwr yn chwarae yn helpu i gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn yn allweddol. Y Cyfnod Pontio yw'r enw a roddir am y broses hon.

## Beth yw Cynlluno ar gyfer Pontio?

Mae Cynllunio ar gyfer Pontio yn dechrau pan mae eich plentyn ym Mlwyddyn 9 (14eg oed). Bydd unigolion sy'n gweithio gyda'ch plentyn yn cwrdd i rannu gwybodaeth am eich plentyn. Caiff yr wybodaeth hon ei chofnodi a chaiff Cynllun Pontio ei lunio. Pan lunnir Cynlluniau Pontio am y tro cyntaf, nid yn unig maent yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael pan mae eich plentyn yn gadael yr ysgol; gallant gynnwys cynlluniau ar gyfer darpariaeth ysgol barhaus hefyd. Dylai'r Cynlluniau Pontio gynnwys y canlynol hefyd:



* Barn a dymuniadau'r plentyn
* Barn a dymuniadau'r rhiant/gofalwr
* Darpariaeth addysg gyfredol/darpariaeth yn y dyfodol
* Cyfleodd hyfforddiant a chyflogaeth
* Anghenion iechyd cyfredol
* Anghenion gofal cymdeithasol cyfredol
* Cyfleoedd yn ystod y dydd ar ôl gadael yr ysgol
* Byw o ddydd i ddydd h.y. trafnidiaeth, cyllid, gwasanaethau tai etc.

The transition process commences with the first Transition Meeting takes place when your son/daughter reaches 14. The Transition Meeting will be organised by your sons/daughters school and as parent(s)/carer(s), you will be invited to the Meeting on equal terms with professional staff to ensure that your views and wishes are recorded.

## The Transition Plan Review Meeting – Who is invited?

People invited to the Transition Review Meeting include:

- The young person
- You the parent(s)/carer(s)
- Representatives from Adult Social Services (ASS) and Children's Social Services (CSS) will make every effort to attend all the Transition Meetings, but if unable to do so, will provide current written reports of involvement (The Children's Disability Team would only be involved if your son/daughter have been referred to their Services and their needs have been assessed by a Children's Core Needs Assessment by a Social Worker and those needs required support. The Adult Social Services would only be involved if your son/daughter have been referred to their services and their needs have been assessed under an Adult Unified Assessment of Needs by a Social Worker and those needs fulfill the Adult Eligibility Criteria for Services)
- Health Professionals involved in the management and care of the young person will also make every effort to attend all the Transition Meetings but if unable to do so, will provide current written reports of involvement
- Representatives from your son(s)/daughter(s) school
- Representatives from the Additional Learning Needs Services (ICS) if requested by your son(s)/daughter(s) school







Mae'r broses bontio yn digwydd yn sgil y Cyfarfod Pontio cyntaf pan mae eich plentyn yn 14 oed. Ysgol y plentyn fydd yn trefnu'r Cyfarfod Pontio a chan mai chi yw'r rhiant/gofalwr, cewch eich gwahodd i'r Cyfarfod a bydd gennych yr un hawl i gyfrannu â'r staff proffesiynol er mwyn sicrhau y cofnodir eich barn a'ch dymuniadau.

## Cyfarfod Adolygu ar gyfer y Cynllun Pontio – Pwy sy'n cael gwahoddiad?

Dyma'r bobl sy'n cael eu gwahodd i Gyfarfod i Adolygu'r Cynllun Pontio:

- Y person ifanc.
- Y chi, sef y rhiant/gofalwr.
- Bydd cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyfer Plant yn gwneud pob ymdrech i fod yn bresennol ym mhob un o'r Cyfarfodydd Pontio. Os nad ydynt yn gallu bod yn bresennol, byddant yn cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig cyfredol ynghylch y gwaith y maent wedi bod yn ei wneud ar ran y plentyn. (Yr unig dro y byddai'r Tîm Anableddau Plant yn rhan o'r broses yw os atgyfeiriwyd eich plentyn ar gyfer eu gwasanaethau ac mae Gweithiwr Cymdeithasol wedi asesu eu hanghenion gan gwblhau Asesiad Anghenion Gofal Plant ac mae angen cymorth ar y plentyn ar gyfer yr anghenion hynny. Yr unig dro y byddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion yn rhan o'r broses yw os atgyfeiriwyd eich plentyn i dderbyn eu gwasanaethau ac mae Gweithiwr Cymdeithasol wedi asesu eu hanghenion gan gwblhau Asesiad Unedig o Anghenion Oedolion ac mae'r anghenion hynny'n diwallu'r Meini Prawf Cymhwysedd ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion).
- Bydd Staff Iechyd Proffesiynol sy'n rhan o reoli a gofalu am y person ifanc hefyd yn gwneud pob ymdrech i fynychu pob un o'r cyfarfodydd Pontio. Os nad ydynt yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfodydd, byddant yn cyflwyno adroddiadau ysgrifendig cyfredol ynghylch y gwaith y maent wedi bod yn ei wneud ar ran y plentyn.
- Cynrychiolwyr o ysgol eich plentyn.
- Cynrychiolwyr o Wasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol os yw ysgol eich plentyn yn gwneud cais am hynny.



- Any other person(s) who has relevant information to share
- Careers Wales Mid Glamorgan and Powys will provide advice on the options open to your son/daughter when they leave school. If your child is leaving to enter further education, higher education or training the adviser will produce a Learning and Skills Plan identifying the needs of your child and the support required to meet those needs.

## Contributing to the Transition Plan

All parties will be asked to contribute to the Transition Plan. As parent(s)/carer(s) you have a vital role in providing relevant information, as you know all the aspects of your son(s)/daughter(s) life.

In planning for the Transition Review Meeting, it may be helpful for you to consider what you do for your son/daughter, whether these needs will change and what you see for their future.

## The Transition Planning Process from 14 - 19 Years

### 14th birthday

- Your son(s)/Daughter(s) school will invite yourselves, Careers Wales Mid Glamorgan and Powys either/both Health Trusts (Cwm Taff Trust/Abertawe Bro-Morganwwg University NHS Trust); Children and/or Adult Social Services, representative(s) from the Additional Learning Needs Services and any others involved with your son(s)/daughter(s) to the Transition Meeting Review.
- Following the Transition Meeting/Review, your son(s)/daughter(s) school will send copies of the Transition Plans and any other documentation to yourselves. Any amendments to your son(s)/daughter(s) Education Statements in consultation with yourselves will be issued by the Additional Learning Needs Services to your son(s)/daughter(s) school. The amended Education Statement will be taken into account at all subsequent annual reviews.





- Unrhyw unigolyn(ion) eraill sydd â gwybodaeth berthnasol i'w rhannu
- Bydd Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys yn cynghori'ch plentyn o'r opsiynau sydd ar gael iddo pan mae'n gadael yr ysgol. Os yw eich plentyn yn gadael yr ysgol ac yn symud i addysg bellach, addysg uwch neu hyfforddiant, bydd y cynghorydd yn paratoi Cynllun Dysgu a Sgiliau yn nodi anghenion eich plentyn a'r cymorth sydd ei angen ar gyfer yr anghenion hynny.

## Cyfrannu at y Cynllun Pontio

Gofynnir i bob parti gyfrannu at y Cynllun Pontio. Fel rhiant/gofalwr, mae gennych chi rôl bwysig yn darparu gwyobdaeth berthnasol, gan eich bod chi'n gyfarwydd â phob agwedd ar fywyd eich plentyn.

Wrth baratoi ar gyfer y Cyfarfod Cynllun Pontio, byddai'n ddefnyddiol i chi ystyried ym mha fodd ydych chi'n cynorthwyo'ch plentyn, a fydd anghenion eich plentyn yn newid a beth fydd anghenion eich plentyn yn y dyfodol.

## Y Broses o Gynllunio ar gyfer Cynllun Pontio ar gyfer plentyn sydd rhwng 14 – 19 oed

### Pan mae'r plentyn yn 14eg oed

- Bydd ysgol eich plentyn yn eich gwahodd chi, Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys, un ai Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf neu Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG Abertawe Bro Morgannwg neu'r ddwy Ymddiriedolaeth; Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant a/neu Oedolion, cynrychiolwr(wyr) o'r Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol ac unrhyw un arall sy'n rhan o'r Cyfarfod i Adolygu Cyfnod Pontio eich plentyn.
- Yn dilyn y Cyfarfod/Adolygiad Pontio, bydd ysgol eich plentyn yn anfon copïau o'r Cynlluniau Pontio ac unrhyw ohebiaeth arall atoch chi. Caiff unrhyw ddiwygiadau i Ddatganiadau Addysg eich plentyn, gan ymgynghori gyda chi yn eu cylch, eu paratoi gan y Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer ysgol eich plentyn. Caiff y Datganiadau Diwygiedig eu hystyried mewn unrhyw adolygiadau blynyddol dilynol.

## 15th birthday

- The annual Transition Review process in Year 10 is repeated and the Year 9 Transition Plan is reviewed to ensure it remains relevant and that any changes or additions are incorporated.

- The Careers Adviser (Learning Difficulties and Disabilities) will provide guidance regarding future education/career options.

## 16th - 19th birthday

- The annual Transition Reviews at your son(s)/daughter(s school are repeated annually to ensure the plans remain relevant and that any changes or additions are incorporated.

- If your son/daughter are involved with the Childrens Disability Team and they leave school before they become 18, the Childrens Disability Team will take lead responsibility in leading the Transition Planning process. If your son/daughter leaves school at 18, and are known to the Integrated Adult Services, then they will take lead responsibility for the Transition Planning process.

- At 18, if eligible under the Adult Social Services Eligibility Criteria for Services, the transfer from the Children's Disability Team to Adult Social Services will take place.

- If a young person is leaving school to enter local college or training then support would be provided via funding from (Department for Education, Lifelong Learning and Skills) DCELLS or possibly by the Local Authority. If a young person has applied for a specialist college placement then a funding application has to be submitted to DCELLS by Careers Wales Mid Glamorgan and Powys. The Careers Adviser for Learning Difficulties and Disabilities will take lead responsibility for preparing and submitting the applications.



## Pan mae'r plentyn yn 15eg oed

- Caiff yr Adolygiad Pontio blynyddol a gynhelir ym Mlwyddyn 10 ei ail-adrodd a chaiff Cynllun Pontio Blwyddyn 9 ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac y caiff unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau eu hymgorffori ynddo.

- Ceir cyfarwyddyd gan y Cynghorydd Gyrfaoedd (Anawsterau ac Anableddau Dysgu) ynghylch opsiynau yn y dyfodol ar gyfer addysg/gyrfa.

## Pan mae'r plentyn yn 16eg oed hyd nes ei fod yn 19eg oed

- Caiff yr Adolygiadau Pontio blynyddol yn ysgol eich plentyn eu hailadrodd bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y cynlluniau'n parhau i fod yn berthnasol ac y caiff unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau eu hymgorffori.

- Os yw eich plentyn eisoes wedi defnyddio gwasanaethau'r Tîm Anableddau Plant ac maent yn gadael yr ysgol cyn eu bod yn 18 oed, y Tîm Anableddau Plant fydd yn arwain y broses o gynllunio ar gyfer y cyfnod Pontio. Os yw eich plentyn yn gadael yr ysgol yn 18 oed, ac mae'r Gwasanaethau Integredig i Oedolion eisoes wedi bod yn darparu gwasanaethau ar gyfer eich plentyn, y nhw fydd yn arwain y broses o gynllunio ar gyfer y Cyfnod Pontio.

- Pan mae'r plentyn yn 18 oed ac os ydynt yn gymwys o dan Feini Prawf Cymhwysedd Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, bydd y cyfrifoldeb am yr unigolyn yn trosglwyddo o'r Tîm Anableddau Plant i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.

- Os yw'r unigolyn yn gadael yr ysgol ac yn mynd i'r coleg lleol neu'n ymgymryd â hyfforddiant, yna darperir cymorth ar gyfer yr unigolyn gydag arian gan APADGOS (yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau) neu o bosib, yr Awdurdod Lleol. Os yw'r unigolyn wedi gwneud cais am le mewn coleg arbenigol yna mae'n rhaid i Yrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys gyflwyno cais i APADGOS. Y Cynghorydd Gyrfaoedd ar gyfer Anawsterau ac Anableddau Dysgu fydd yn gyfrifol am baratoi a chyflwyno'r ceisiadau.

## Contact and Useful Information

| | |
|---|---|
| Adult Social Services | Tel. No. 01685 727010 |
| Children's Social Services | Tel. No. 01685 724986 |
| Additional Learning Needs Services | Tel. No. 01685 724698 |
| Careers Wales<br>Mid Glamorgan & Powys | Tel. No. 01685 358180 |
| ............................................................ | Tel. No. 02920 852505 |
| Greenfield School | Tel. No. 01443 690468 |
| Voluntary Action Merthyr Tydfil | Tel. No. 01685 353907 |
| Abertawe Bro-Morgannwg<br>University NHS Trust | Tel. No. 01685 724991 |
| SNAP Cymru Parent<br>Partnership Services | Tel. No. 01443 220150 |
| Cwm Taf Trust/Paediatric Services | Tel. No. 01685 721721 |



## Cysylltiadau a Gwybodaeth Defnyddiol

Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion............ Rhif ffôn: 01685 727010

Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gyfer Plant....... Rhif ffôn: 01685 724986

Gwasanaethau Ynghylch Anghenion
Dysgu Ychwanegol ............................................. Rhif ffôn: 01685 724698

Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Powys........ Rhif ffôn: 01685 358180

............................................................................ Rhif ffôn: 02920 852505

Ysgol Greenfield ................................................ Rhif ffôn: 01443 690468

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful............. Rhif ffôn: 01685 353907

Ymddiriedolaeth Prifysgol GIG
Abertawe Bro Morgannwg ................................ Rhif ffôn: 01685 724991

Gwasanaethau Partneriaeth i
Rieni SNAP Cymru ............................................ Rhif ffôn: 01443 220150

Ymddiriedolaeth Cwm Taf /
Gwasanaethau Pediatreg .................................. Rhif ffôn: 01685 721721

*“Mae gan bobl anabl, o le bynnag y maent yn hannu a beth bynnag yw natur a difrifoldeb eu hanabledd, yr un hawliau â chyd-ddinasyddion o’r un oed, ac yn fwy na dim, mae ganddynt hawl i fwynhau bywyd da, bywyd normal a bywyd mor llawn â phosibl.”*
*(Datganiad Hawliau Pobl Anabl y Cenhedloedd Unedig)*





*“Disabled people, whatever their origin, nature and seriousness of the disabilities have the same rights as their fellow citizens of the same age, which implies first and foremost the right to enjoy a decent life, as normal and as full as possible”*
*(United Nations the Declaration of the Rights of Disabled People).*